# FFURFLEN YMATEB – Cynnig i gau Ysgol Llangwyryfon

**Mae Cyngor Sir Ceredigion yn ymgynghori ar y cynnig i gau Ysgol Llangwyryfon o 31/8/25, gyda disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Llanilar. Mae'r ffurflen ymateb ganlynol yn caniatáu rhanddeiliaid wneud sylwadau ar y prif gynnig, yr opsiynau amgen ac awgrymu opsiynau eraill.**

---

## 1. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'ch cysylltiad â'r ysgol y mae'r cynnig hwn yn effeithio arni?

**Rhiant/ gofalwr neu warcheidwad**
**darpar riant / gofalwr neu warcheidwad**
**Llywodraethwr**
**Staff**
**Aelod o'r gymuned**
**Cyngor cymuned**
**Arall: nodwch -**_Ffred Ffransis, ar ran Grwp Ymgyrch Addysg, Cymdeithas yr Iaith

## 2. Rhowch unrhyw sylwadau ar y cynnig i gau Ysgol Llangwyryfon:

Er y byddwn yn cyflwyno llawer o sylwadau ac o dystiolaeth yn yr ymateb hwn, y mae ein gwrthwynebiad I'r cynnig I gau Ysgol Llangwyryfon yn eitha syml yn ei hanfod. Nid yw'n werth cau ysgol sy'n llwyddo'n addysgol ac o ran meithrin ymdeimlad o gyfrifoldeb cymunedol, ac yn ased cymunedol Cymraeg cwbl anhepgor, ac amharu ar addysg degau o blant am arbedion honedig o £31,000. Yn ol dadansoddiad LLywodraethwyr yr ysgol, y gwir arbedion rhwng cadw'r ysgol yn bwerdy addysg lleol ar y nail law , a rhedeg bws/byssus I gludo disgyblion at ysgol arall yn nes at £7000 yn unig. Beth bynnag yw'r union ffigur o ran arbedion honedig, nid yw'n werth y ddifrod a achosir I'r plant ac hefyd i gymuned Gymraeg. Caiff llawer yn fwy ei gwario ar fentrau I hyrwyddo'r Gymraeg, ac eto mae cynnig fel hwn I danseilio cymuned Gymraeg. Rhaid cael polisiau cydlynus ar gyfer dyfodol ein cymunedau gwledig Cymraeg.

Petai rhyw argyfwng addysgol neu o natur arall a oedd yn golygu fod yn rhaid gweithredu'n syth I gau'r ysgol, byddai rhywun wedi deal y brys. Ond mae'r gymuned leol, y Cyngor Sir ac Estyn oll yn gytun fod yr addysg yn dda yn yr ysgol. Wrth gwrs y gelllid ehangu'r ddarpariaeth addysgol, ond nid oes ystyriaeth o hyn yn y ddogfen – heblaw am un frawddeg generig o am ffedereiddio - oherwydd nad bwriad y ddogfen ymgynghorol yw gwella addysg ond yn hytrach na gwenud rhai arbedion yng nghyllideb gyffredinol y Cyngor. Mae hyn yn groes I ofyniad y Cod Trefniadaeth Ysgolion fod yn rhaid I ystyriaethau addysgol fod yn bennaf. Mae'r dull o weithredu'r broses nid yn

unig yn allgau'r gymuned leola'r ysgol ei hun, ond hefyd yn groes i ddeddfwriaeth a strategaethau cenedlaethol a lleol o ran llesiant a'r Gymraeg.

Hyd yn oed o ran gwariant y mae'r ddogfen yn methu. Wrth gwrs fod darparu unrhyw wasanaeth cyhoeddus yn costio'n fwy y pen mewn ardal wledig lai poblog nag mewn cymuned drefol, ond mae llai o wasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol mewn ardaloedd gwledig, ac felly mae'r gwariant cyfan y pen yn llai nag sydd mewn ardaloedd trefol. Heblaw am fod polisi penodol newydd gan Gyngor Ceredigion I brysuro symudiad teuluoedd ifainc o ardaloedd gwledig, ac yn derbyn mai pentrefi o bobl wedi ymddeol a llety gwyliau, heb fywyd cymunedol, fydd yr ardaloedd hyn, nid yw'n gwneud synnwyr I seilio dad lar frawddegau generig o'r fath.

Mae hyd yn oed yr "heriau" eraill y cyfeirir atynt – o ran rhagamcanion disgyblion a diffyg yn y gyllideb – yn cael eu cwestiynu'n ddifrifol gan lywodraethwyr yr ysgol. Mae'r anghysoindebau yn codi gan mai ymarferiad tu ol I ddrysau caeedig oedd paratoi'r Papur Cynnig rhwng Mawrth a Mai eleni. Ni bu'n seiliedig ar unrhyw gyswllt gyda llywodraethwyr I drafod a gwirio ffeithiau a gwrqando ar syniadau, llai byth ar ymweliadau ag ysgolion.

Dyma'r llinyn sy'n rhedeg trwy'r Papur Ymgynghorol – fod penderfyniad a chynnig wedi bod ar ddechrau'r broses I gau nifer o ysgolion am resymau (digysllt ag addysg) gwneud arbedion yn y gyllideb gyffredinol – yn gwbl groes I'r Cod Trefniadaeth Ysgolion sydd yn mynnu fod angen gweithredu ar sail rhagdyb yn erbyn cau ysgolion gwledig ar y rhestr (fel Llangwyryfon) a chynnig cau ddim ond os bydd pob cynnig arall yn methu. Yn lle hynny, Penderfynodd swyddogion fod angen cau ysgolion, hysbysu penaethiaid a chadeiryddion llywodraethwyr o'r bwriad a dweud y byddai maes o law gyfle iddynt fynegi unrhyw syniadau eraill. Dyma droi'r Cod ar ei ben.

Awgrymir yn y ddogfen fod y broses wedi dechrau yn Chwefror 2024. Dywedir fod y cyfarfod Cyngor llawn I gymeradwyo arbedion cyllideb wedi digwydd ar 29/2/24 ar ol cyfarfodydd gyda phenaethiaid a chadeiryddion llywodraethwyr yn ystod y mis. Ond yr hyn a wnaeth y Cyngor ar 29/2/24 oedd derbyn argymhelliad a waned yn niwedd Ionawr 2024 I edrych ar yr ystad o ysgolion er mwyn gwneud arbedion yn y gyllideb. Dyna yrrodd yr holl broses. Galwyd *wedyn* y penaethiaid a'r cadeiryddion llywodraethwyr I mewn I'w hysbysu o'r bwriad I gau'r ysgolion a'u hysbysu y gallen nhw wedyn gynnig unrhyw opsiynau eraill. Mewn gohebiaeth gyda chadeirydd Llywodraethwyr

Llangwyryfon (gw ohebiaeth yn yr atodiad), awgrymwyd y dylid aros tan yr Ymgynghoriad Statudol cyn cynnig sylwadau ac opsiynau.

Mae'r gweithred hwn o benderfynu ar fwriad I gau ysgolion ac *wedyn* dweud wrth bobl I anfon unrhyw opsiynau eraill atynt yn gwbl groes I'r hyn sydd yn Argraffiad 2018 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion a bwriad Senedd Cymru wrth ei gymeradwyo – fel y mae'r dystiolaeth yn dangos.. Mae'r Cod yn datgan yn glir fod "Cyfraith Achosion wedi sefydlu y dylai Cyngor gynnal trafodaethau tr abo cynigion yn dal ar gam ffurfiannol. Nid canllaw yn y Cod yw hwn, ond datgan beth yw'r sefyllfa gyfreithiol – sy'n cadarnhau'r egwyddor sylfaenol o sicrhau rhagdyb yn erbyn cau ysgol sydd ar restr y Llywodraeth o Ysgolion Gwledig (ac mae Llangwyryfon ar y rhestr).

Petai angen rhagor o dystiolaeth fod y Cyngor wedi gweithredu'n groes I'r Cod ac I ofynion cyfreithiol, dyma esboniad yr Ysgrifennydd dros Addysg, Kirsty Williams AS, mewn ateb i gwestiwn gan Suzy Davies AS mewn cyfarfod llawn o'r Senedd ar 19.9.18 (wrth edrych ymlaen at y Côd yn dod i rym bum wythnos yn ddiweddarach), dywedodd yr Ysgrifennydd Addysg Kirsty Williams "**Local authorities in those areas, if they have a school that's on the list, should start on the basis that closure is the last option and they should seek every opportunity through a variety of ways to keep those schools open"**

Dyma gadarnhau mai bwriad Senedd Cymru, wrth gyflwyno argraffiad newydd y Côd, oedd bod yn rhaid i Awdurdodau Lleol ddechrau o safbwynt diffuant rhagdyb yn erbyn cau ysgolion ar y rhestr, gan droi at gynnig o gau ysgol ddim ond os metha pob peth arall. Ychwanegodd Kirsty Williams "**Presumption against a closure and the option to seek alternatives to keeping a school open, again, should not be left to the official consultation period, but should be employed by the council before they make any decision to go out to consultation on the future of the school".**

Mae "*chwilio* am opsiynau amgen" yn amlwg yn golygu holi a gwahodd trafodaeth, nid dilyn rhestr generig mewn swyddfa. Mae'r Cod eto'n mynnu fod yr ystyriaeth o bob opsiwn heblaw am gau ysgol yn gorfod bod yn "ofalus" ac yn "gydwybodol". Ni fyddai unrhyw lys yn derbyn fod gwrthod opsiwn gydag un frawddeg generig, ac union yr un frawddeg ym mhob un o'r dogfennau cynnig am y 4 gwahanol ysgol yn gyfystyr ag "ystyriaeth ofalus". Does dim ymdrech o gwbl i ddehongli'r opsiynau yng nghyd-destun yr nysgolion unigol nag i geisio barn rhan-ddeiliaid.

Ym mhob rhan o'r broses, bu ymdrech i gynhyrchu dogfennau generig gyda'r bwriad o "dicio blychau" priodol yn unig ynhytrach nag ystyried mater difrifol iawn dyfodol ysgolion a chymunedau ac amharu ar addysg degau o blant. Nid beirniadaeth ar y swyddogion yw hwn, ondarwydd fod y swyddogion dan bwysau mawr wrth weithio, heb amser i ystyried na thrafod o ddifri, ac yn gweithio dan gamargraff nad oedd Senedd Cymru na'r gyfraith o ddifri ynghylch mynnu proses gywir wrth gymryd cam mor ddifrifol a chau ysgol.

Dim ond braslun sydd yma o'r diffygion o ran dilyn y broses a amlinellir yn y Cod. Yr ydym wedi copio'n tystiolaeth lawn yn ATODIAD A – sef testun ein cwyn i'r Ysgrifennydd Addysg nad oedd Cyngor Ceredigion wedi  dilyn gpfynion y Cod wrth fynd at benderfyniad i gychwyn Ymgynghoriad Statudol ar gynigion i gau'r bedair ysgol. Yn anffodus, ni ddewisodd yr Ysgrifennydd Addysg ateb ein cwy sylfaenol, na wneud unrhyw sylw am yr holl dystiolaeth a gyflwynon ni. Ynnhytrach ymfodlonodd ar ddanfon atom aralleiriad eto o'r hyn a oedd yn y Cod ac yn hysbys yn barod i bawb. Ar ben hynny, credodd fod Cymdeithas yr Iaith wedi camddyfynnu brawddeg gan un swyddog gan y llywodraeth, a chadarnhaodd na wyddai ar ba sail yr oedd cyfarwyddwr yn y Cyngor Sir yn gallu dweud fod y Llywodraeth wedi cymeradwyo proses y Cyngor. Byddai wedi bod o fudd i ni, i'r rhanddeiliaid, ac i'r Cyngor ei hun petai hi wedi dyfarnu'n bendant ar y mater. Ond deallwn fod eraill wedi defnyddio rhywfaint o'n tystiolaeth mewn her cyfreithiol (gyda'n caniatad parod), a bydden ii'n dychwelyd at y Gweinidog i fynnu atebion i'r cwestiynau penodol petai cyhoeddi unrhyw Hysbysiad i gau'r ysgolion. Cyflwynwn  ATODIAD A i'ch sylw.

**3. A oes unrhyw opsiynau eraill y credwch y dylai'r Awdurdod Lleol fod yn eu hystyried ar gyfer Ysgol Llangwyryfon, a fyddai'n mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn y Ddogfen Ymgynghori?**

**Oes X**

**Nac oes**

**Os oes, amlinellwch yr opsiwn (opsiynau amgen):**

Wedi gwneud y pwynt (uchod) nad ystyrwyd yr opsiynau amgen yn gydwybodol, nac yng nghyd-destun ysgolion ac amgylchiadau unigol, diolchwn am y cyfle I gynnig nifer o opsiynau amgen yma. Dylid pwysleisio na bydd yr opsiynau hyn yn gyfyngedig I'r "heriau" cul y mae'r Papur Ymgynghorol yn holi yn eu cylch, ond ynhytrach am ddiwygio'r darpariaeth yn fwy sylfaenol yn addysgiadol ac yn weinyddol, ganhyderu y byddai'r gwelliannau wedyn yn lleihau, o ganlyniad, "heriau" o ran cyllideb, o ran cyflwyno'r cwricwlwm ac i

raddau o ran “problemau” a ganfyddir am ddosbarthiadau aml-oedran a phenaethiaid yn gorfod addysgu ! Dyma rai opsiynau perthn asol I Ysgol Llangwyryfon -

**FFEDERASIWN**

***** Mae’r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn enwi Ffederasiwn yn benodol fel dull amgen yn hytrach na chau ysgol wledig. Yn hunan-amlwg, nid yw newid trefniadol I greu ffederasiwn o ysgolion yn newid, ynddo’I hun, nifer disgyblion mewn ysgol, na chyllideb, na chost mathemategol y pen o’u dysgu nac o ran hynny cyflwr adeilad. Ni byddai “ffederasiwn” wedi cael ei roi yn y Cod fel prif opsiwn amgen os gellid ei wrthod bob tro gyda’r un frawddeg generig ym mhob dogfen unigol nad yw ffederasiwn yn ateb her nifer disgyblion, sefyllfa gyllidol etc. Nid yw enwi opsiwn ac yna ei wrthod gydag un frawddeg generig yn ystyriaeth “ofalus” na “cydwybodol” o opsiwn.

* Mae’r ddogfen ymgynghorol yn gofyn y cwestiwn anghywir. Wrth gwrs na byddai newid trefniadol o greu ffederasiwn, gan wneud dim byd arall, ddim yn ateb yr “heriau”. Yr holl bwynt yw fod creu ffederasiwn yn *galluogi* llywodraethwyr I wneud pethau eraill a allent effeithio ar yr heriau e.e.rhesymoli gweinyddiaeth ac arweiniad a threfniadau pwrcasu ysgolion sydd mewn ffederasiwn er mwyn lleihau costau cyfan. Nid yn unig fod y manteision addysgol o sicrhau cronfa helaethach o sgiliau athrawon yn gwella’r addysg, ond gall hefyd effeithio ar niferoedd disgyblion mewn ysgol gan leihau cymhelliant I symud plant o ysgol arbennig.

* Mae bron y cyfan o’r manteision a restrir yn y ddogfen sydd gan ysgol ardal ganolog yn gallu hefyd cael eu cyflawni trwy ffederasiwn e.e. trwy ddod a digyblion o’r un oedran at ei gilydd at ddibenion arbennig fel cerddoriath , chwaraeon etc. Os oes gofod dros ben mewn ysgol ganolog fel Llanilar, gellid ei neilltuo ar gyfer gweithgareddau ffederasiwn pan ddaw plant o’r un oed ynghyd.

* Mewn ffederasiwn, gellir hefyd dros gyfnod arbed gwariant cyfredol a chyfalaf trwy beidio a gorfod dyblygu adnoddau ar bob safle. Gellir cyflawni’r manteision addysgol a chyllidol hyn oll mewn ffederasiwn heb amddifadu cymunedau o’u hysgolion a’u ffocws pobl ifainc, ac felly gyfrannu at amcanion corfforaethol y Cyngor yn hytrach na bod un strategaeth yn tanseilio strategaeth arall gan yr un Awdurdod.

* Hyd yma, damcaniaethol a chyffredinol yw ein sylwadau yn yr adran hon – yn union fel holl natur dogfen ymgynghorol y Cyngor ei hun. Ymarferion swyddfa. Mae ystyriaeth ofalus o opsiwn yn golygu profi’r posibiliadau damcaniaethol

yng nghyd-destun yr ysgolion a chymunedau dan sylw gan y byhddai pob model o ffederasiown yn wahanol yn ddibynnol ar amgylchiadau lleol. Dyma ddiffyg sylfaenol y ddogfen ymgynghorol. Ni bu unrhyw ymdrech I ymweld na chynnal deialog gyda llywodraethwyr (hyd at ganol y cyfnod ymgynghori statudol ei hun) I ddeall y sefyllfa leol na thrafod opsiynau cyn llunio cynnig. Ystadegau moel yw'r unig wybodaeth leol. Dyma paham na chafwyd dadansoddiad ystyrlon o'r opsiynau yn y ddogfen ymgynghorol.
* Ac mae'r Cod yn gwneud llawer o awgrymiadau am sut y gellir adolygu'n effeithiol. Un o'r prif argymhellion yw fod *adolygu fesul ardal* yn hytrach nag edrych ar ysgolion unigol fel petaent yn bodoli mewn gwagle. Dyma sy'n cyfri am y gwendid hanfodol yn y ddogfen o ystyriaeth ffederasiwn yng nghyd-destun Ysgol Llangwyryfon. Oherwydd y rheidrwydd I drin ysgolion fesul un, mae'r ddwy ddogfen yn trin ffederasiynau potensial rhwng Ysgol Llanilar a Llangwyryfon a rhwng Llanilar a Llanfihangel-y-Creuddyn fel dau ymarferiad hollo lar wahan mewn modd ffantasiaidd. O ystyried fesul ardal, mae'n weddol amlwg y byddai rhagor o arbedion potensial o greu ffederasiwn yn cwmpasu'r dair ysgol ac yn debyg Ysgol Llanfarian gan greu trefniant cynaladwy at y dyfodol.
* Does dim ymgais o gwbl wedi bod I drafod gyda'r ysgolion na'r cymunedau hyn sut y gallai trefniant o'r fath weithio nac adnabod yr union arbedion na'r union botensial o ran ehangu profiadau addysgol. Byddai cymhelliant wedi bod I'r bedair ysgol drafod yn adeiladol gan fod problemau I'r bedair yn y trefniant presennol – mae cynigion i gau ysgolion Llanfihangel-y-Creuddyn a Llangwyryfon, mae niferoedd cymharol isel yn Llanfarian, ac mae gofod gwag arwyddocaol yn Llanilar. Gan y bydd, gobeithio, rhoi heibio'r cynigion presennol, bydd cyfle – wedi cyfnod o orffwys wedi trauma'r misoedd diwethaf ac wedi ailadeiladu ymddiriedaeth ar bob ochr – i drafod trefn gynaladwy at y dyfodol.
* Mae llawer o wahanol ffurfiau potensial ar ffederasiwn nas cyfeirir atynt o gwbl yn y ddogfen ymgynghorol e.e. gellir creu ffederasiwn rhwng hyd at 5 o ysgolion cynradd (a rhagor o wneud cais arbennig) ac ysgol uwchradd. Byddai cefnogaeth gan lywodraeth ganolog I gam arloesol o'r fath a byddai ffederasiwn gydag Ysgol Penweddig yn ticio llawer o flychau parhad o gynradd I uwchradd, hybu addysg uwchradd gyfrwng- Cymraeg etc. Wrth gwrs, yn achos Ysgol Llangwyryfon, gallai ffederasiwn yn hytrach gwmpasu Tregaron ac ysgolion y fro.
* Petai'r pwyslais ar addysg, byddai trafodaethau felly'n digwydd yn cwmpasu'r

holl randdeiliaid. Mae’r broblem gyfredol wedi codi oherwydd fod yn pwyslais presennol yn hytrach ar wneud arbedion amser byr yn y gyllideb. Dyma paham y mae canolbwyntio ar ysgolion unigol fel petaent yn bodoli mewn gwagle’n arwain at gynigion o safon gwael.

**OPSIYNAU ERAILL ETO**

* Gellid ystyried model ysgol aml-safle yn cwmpasu’r un ysgolion cynradd ag uchod. Byddai mwy fyth o rym I ddefnyddio gwahanol safleoedd at ddibenion y corff llywodraethol canolog. Ond byddai’n rhaid adfer ymddiriedaeth yn gyntaf gan y gall ysgol aml-safle fod yn gyfrwng I Awdurdod Lleol basio I fwrdd llywodraethol y cyfrifoldeb (trwy wasgu’r gyllid) o benderfynu cau safle o’r ysgol, a hynny wedyn heb yr un broses ymgynghorol fanwl.

* Mae’r Cod hefyd yn datgan na ddylai gormodedd llefydd neu ofod gwag mewn ysgol arwain yn otomatig at gynnig cau ysgol, a bod angen ystyried a elld defnyddio’r gofod at ddibenion gwahanol. Yn yr achos hwn, cyfeirio ydym at y gofod gwg yn Ysgol Llanilar. Ymhlith y defnydd amgen potensial o’r gofod gwag y mae adleoli rhai swyddi sector cyhoeddus yn yr ysgol, lleoli rhai gwasanaethau cymunedol yn yr ysgol (a fyddai’n hyrwyddo cysylltiadau a defnydd o’r adeilad). Bu cyfeiriad hefyd yn y ddogfen at bosibiliad crwu “hwb cymuedol” ar gyfer ardal Llanilar ac, os felly, gellid ei leoli yn yr ysgol. Yn eu brys I baratoi’r holl ddogfennau’n sail I gynnig I gau’r ysgol, mae’n amlwg nad oedd amser I ymweld na thrafod yn iawn gwahanol opsiynau o’r fath. Nid yw’n ddigonol I’w trin mewn modd tocenistaidd, gan enwi opsiynau’n unig a’u gwrthod yn syth gyda chymal generig – yr un fath ym mhob dogfen – I’r perwyl fod angen gosod diogelwch y plant yn flaenaf.  Mater ydyw o ymweld, trafod a llunio cynllun sydd yn diogelu disgyblion.

**4. A oes gennych unrhyw bryderon am effaith y cynnig i gau Ysgol Llangwyryfon ar unrhyw un o’r canlynol:**
**y Gymuned**
**Pobl â nodweddion gwarchodedig h.y. oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol**
**Arall: Nodwch os gwelwch yn dda ____________________**
**Rhowch fanylion pellach isod:**

**5. Yn unol â Safonau'r Gymraeg mae'n ofynnol i ni ystyried effeithiau unrhyw benderfyniadau polisi ar y Gymraeg.**
**a. Yn eich barn chi, pa effeithiau cadarnhaol neu andwyol y byddai'r cynnig hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**
Yn ol synnwyr cyffredin, ni bydd cau ysgol naturiol Gymraeg Llangwyryfon yn cael unrhyw effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Mae'r Safonau Iaith yn mynnu eich bod yn ystyried effeithiau llawer ehangach n chyfrwng yr addysg yn unig, ac mae'r Cod yn mynnu eich bod yn darparu hefyd asesiad effaith gymuneol hefyd. Unwaith eto, mae'n anffodus nab u ymweliadau a'r ysgol yn ystod y cyfnod cyn llunio'r cynnig I gau'r ysgol er mwyn trafod yr effeithiau negyddol potensial. Mae'n amlwg na ellir creu asesiad effeithiol o'r fath mewn swyddfa. Mae Deddf Llesiant Cymru'n mynnu fod y Cyngor yn trafod y dyfodol gyda rhai yr effeithir arnynt, yn hytrach na llunio cynlluniau mewn swyddfydd yn unig. Dyma rai o'r effeithiau negyddol potensial o ran effaith ar y Gymraeg, ar gyfleon defnyddio'r Gymraeg, ac ar y gymuned yn gyffredinol -
* Os na bydd ysgol Gymraeg yn y pentre ei hun, gall fod nifer o rieni o fewnfudwyr I'r ardal benderfynu mynd a'u plant ar y ffordd uniongyrchol at Benparcau/Aberystwyth os yw eu gwaith yno Er bod cynlluniau ar droed I raddol Gymreigio addysg gynradd yn ardal y dref, fe gollir nifer o ddisgyblion I addysg gyfrwng-Cymraeg dros y cyfnod allweddol nesaf.
* Mae Llangwyryfon yn un o'r ychydig ysgolion lle mae'r Gymraeg yn iaith naturiol yr iard chwarae, yn hytrach na chael ei gweld yn gyfrwng addysg yn unig, a chaiff plant mewnfudwyr eu cymhathu'n gyflym fel yr arferid digwydd trwy'r sir. Mae cymunedau o'r fath yn drysorau o ran cynaladwyedd y Gymraeg.
* Trwy gyfrwng y Ffermwyr Ifainc, a gweithgareddau tebyg, mae Llangwyryfon yn ganolbwynt cymdeithasol inifer o gymunedau gwledig gwasgarog o'I chwmpas, ac mae cyswllt annatod rhwng y profiad o gyd-dyfu trwy'r ysgol a chynaladwyedd y gymuned ehangach. Mae'r profiad o fod yn ddisgybl yn yr ysgol acyn rhan o'r bwrlwm cymdeithasol a ddisgrifir yn sicr o feithrin y fath o ymdeimlad o berthyn a chyfrifoldeb at yr ardal a fydd yn cynyddu awydd pobl ifainc Cymraeg I weld eu dyfodol yn yr ardal. Unwaith fod dechrau torri eco-system cymuned Gymraeg y mae bygythiad I'w chynaladwyedd.

* Hyd yn hyn, yrnydym wedi ceisio peidio a bod yn or-feirniadol o'r ddogfen ymgynghorol gan I ni gydnabod I swyddogion fod dan bwysau amser a chyllid, ac wedi gorfod cyflawni'r gwaith o'u swyddfeydd. Ond ni ellir cymryd yr Asesiad Effaith o gau'r ysgol ar y Gymraeg fel dogfen ddifrifol wrth iddi gasglu y byddai'r

effaith yn niwtral !!! Er mwyn cynnal hygrededd, rhaid fydd cael asiantaeth allannol (heb ei chyllido gan y Cyngor) I wneud asesiadau tebyg yn y dyfodol.

**b. Sut ydych chi'n credu y gallai'r cynnig hwn gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effaith positif neu mwy positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

**c. Sut ydych chi'n credu y gallai'r cynnig hwn gael ei lunio neu ei addasu fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol neu'n cael effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

**6. Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyhoeddi yn crynhoi'r materion a godwyd gan ymgyngoreion ac ymateb yr Awdurdod Lleol i'r materion hynny. A hoffech chi gael gwybod am gyhoeddiad yr Adroddiad Ymgynghori?**
**Ie Na - IE**
**Os oes, rhowch gyfeiriad e-bost neu gyfeiriad post: ffred@cadwyn.com**

**ATODWN GOPI O'N CWYN AT YR YSGRIFENNYDD DROS ADDYSG SY'N CYNNNWYS EIN HACHOS LLAWN NAD OEDD Y CYNGOR WEDI YMGADW AT OFYNION Y COD TREFNIADAETH YSGOLION WRTH BENDERFYNU CYCHWYN YMGYNGHORIAD STATUDOL AR Y CYNIGION I GAU'R NYSGOL HON A 3 YSGOL WLEDIG GYMRAEG ARALL.** Ni wnaeth y Gweinidog Addysg roi ateb pendant, ond byddwn yn mynnu ateb I'r pwynt penodol os na bydd yr Ymgynghoriad Statudol wedi ei ddileu.

---

**Diolch am gwblhau'r ffurflen ymateb Dylid anfon ffurflenni ymateb wedi'u cwblhau i'r cyfeiriad canlynol, i gyrraedd erbyn 3 Rhagfyr 2024 fan bellaf neu eu hanfon i'r cyfeiriad e-bost isod.**
**Prif Swyddog Addysg, Gwasanaeth Ysgolion, Ail Lawr, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, SY23 3UE E-bost: adolygu.ysgolion@ceredigion.gov.uk**